



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 1228 (Cy. 310)

2021 No. 1228 (W. 310)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau
Etholiadol) (Rhif 2) 2021**

**The County of Flintshire (Electoral
Arrangements) (No. 2) Order 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Mehefin 2020 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Sir y Fflint. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 57 i 42, a lleihau nifer y cynghorwyr o 70 i 66.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 1(4) o'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) 2021.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir y Fflint ac yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir y Fflint.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gweithredu argymhellion ynghylch newidiadau i wardiau cymunedol a threfniadau etholiadol ar gyfer rhai cymunedau yn Sir y Fflint.

Mae erthygl 4 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Pentrobin, Dwyrain Bistre a Mynydd yn nhref Bwcle. Mae erthygl 5 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Mynydd a Phentrobin o dref Bwcle.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order implements the recommendations of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in June 2020 on its review of the electoral arrangements for the County of Flintshire. The Commission's Report proposed a decrease in the number of electoral wards, from 57 to 42, and a decrease in the number of councillors from 70 to 66.

This Order implements the Commission's recommendations with modifications.

Article 1(4) of this Order revokes the County of Flintshire (Electoral Arrangements) Order 2021.

Article 3 of this Order abolishes the existing electoral arrangements for the County of Flintshire and introduces the Schedule, which sets out the new electoral arrangements for the County of Flintshire.

This Order also implements recommendations for changes to community wards and changes to the electoral arrangements for some communities within the County of Flintshire.

Article 4 makes changes to the boundaries between the community wards of Pentrobin, Bistre East and Mountain within the town of Buckley. Article 5 sets out the number of members to be elected for the Mountain and Pentrobin wards of the town of Buckley.

Mae erthygl 6 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Oakenholt, y Castell a Threlawny yn nhref y Fflint. Mae erthygl 7 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Oakenholt a Threlawny o dref y Fflint.

Mae erthygl 8 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol De Cei Connah, Canol Cei Connah a Golftyn yn nhref Cei Connah. Mae erthygl 9 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Canol Cei Connah a De Cei Connah yn nhref Cei Connah.

Mae erthygl 10 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Gorllewin yr Wyddgrug, Dwyrain yr Wyddgrug, Broncoed a De'r Wyddgrug yng nghymuned yr Wyddgrug.

Mae erthygl 11 yn diddymu ward gymunedol Penarlâg yng nghymuned Penarlâg ac yn trosglwyddo rhannau o'r ward honno i wardiau Mancot ac Aston o gymuned Penarlâg. Mae erthygl 12 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Aston a Mancot o gymuned Penarlâg.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "10" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol), a chyda Chyngor Sir y Fflint. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir y Fflint yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

Article 6 makes changes to the boundaries between the community wards of Oakenholt, Castle and Trelawny within the town of Flint. Article 7 sets out the number of members to be elected for the Oakenholt and Trelawny wards of the town of Flint.

Article 8 makes changes to the boundaries between the community wards of South, Central and Golftyn within the town of Connah's Quay. Article 9 sets out the number of members to be elected for the Central and South wards of the town of Connah's Quay.

Article 10 makes changes to the boundaries between the community wards of West, East, Broncoed and South within the community of Mold.

Article 11 abolishes the community ward of Hawarden in the community of Hawarden and transfers parts of that ward to the Mancot and Aston wards of the community of Hawarden. Article 12 sets out the number of members to be elected for the Aston and Mancot wards of the community of Hawarden.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Prints of the maps labelled "1" to "10" to which this Order relates are deposited in the office of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Democracy Division), and with Flintshire County Council. Prints deposited with Flintshire County Council are open to inspection by anyone affected by the provisions of this Order.

2021 Rhif 1228 (Cy. 310)

2021 No. 1228 (W. 310)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau
Etholiadol) (Rhif 2) 2021**

**The County of Flintshire (Electoral
Arrangements) (No. 2) Order 2021**

Gwnaed 2 Tachwedd 2021

Made 2 November 2021

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

*Coming into force in accordance with article
1(2) and (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(1), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(2) (“Deddf 2013”), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mehefin 2020 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir y Fflint.

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(1) has, in accordance with section 36(5) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013(2) (“the 2013 Act”), submitted to the Welsh Ministers a report dated June 2020 containing its recommendations for change and the details of its review of the electoral arrangements for the County of Flintshire.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i’r argymhellion hynny gydag addasiadau.

The Welsh Ministers have, after consideration of the matters referred to and set out in section 37(2)(a) and (c) of the 2013 Act, decided to give effect to those recommendations with modifications.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i’r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

In accordance with section 37(3) of the 2013 Act, more than 6 weeks have elapsed since those recommendations were submitted to the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of their powers conferred by section 37(1) of the 2013 Act.

(1) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (“Deddf 1972”), ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) (“Deddf 2013”), ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi’r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

(2) 2013 dccc 4.

(1) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70) (“the 1972 Act”). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) (“the 2013 Act”). The 2013 Act re-names the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2).

(2) 2013 anaw 4.

Enwi, cychwyn a dirymu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) (Rhif 2) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym drennydd y diwrnod y'i gwneir.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(1).

(4) Mae Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) 2021(2) wedi ei ddirymu.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(3);

ystyr “ward etholiadol” (“*electoral ward*”) yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Sir y Fflint;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn gyfeiriad at un o'r 10 map a farciwyd “Map ar gyfer Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) (Rhif 2) 2021” a adnewyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau, a labelwyd “1” i “10”, ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir y Fflint

3.—(1) Mae wardiau etholiadol Sir y Fflint, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

Title, commencement and revocation

1.—(1) The title of this Order is the County of Flintshire (Electoral Arrangements) (No. 2) Order 2021.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on the second day after the day on which it is made.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2022(1).

(4) The County of Flintshire (Electoral Arrangements) Order 2021(2) is revoked.

Interpretation

2. In this Order—

“electoral ward” (“*ward etholiadol*”) means any area for which members are elected to Flintshire County Council;

“the Regulations” (“*y Rheoliadau*”) means the Local Government Area Changes Regulations 1976(3);

any reference to a map means one of the 10 maps marked “Map of the County of Flintshire (Electoral Arrangements) (No. 2) Order 2021” deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations, labelled “1” to “10”, and a reference to a numbered map is a reference to the map that bears that number;

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature;

words and expressions used in this Order have the same meaning as they have in Part 3 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, except so far as a contrary intention appears.

Electoral arrangements for the County of Flintshire

3.—(1) The electoral wards of the County of Flintshire, as they exist immediately before the ordinary day of election of councillors in 2022, are abolished.

(1) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

(2) O.S. 2021/1215 (Cy. 304).

(3) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchymynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchymynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(1) The Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/1269 (W. 220)) amends section 26(1) of the 1972 Act to provide that the year in which the ordinary elections of councillors of local authorities shall take place is 2022 instead of 2021.

(2) S.I. 2021/1215 (W. 304).

(3) S.I. 1976/246. Section 74(3) of the 2013 Act provides that the Regulations continue to have effect in relation to orders made under Part 3 of the 2013 Act, as if those orders were made under Part 4 of the 1972 Act.

(2) Mae Sir y Fflint wedi ei rhannu'n 45 o wardiau etholiadol, a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer yr aelodau o'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1).

Tref Bwcle: newidiadau i wardiau cymunedol

4. Yn nhref Bwcle—

- (a) mae'r rhan o ward Pentrobin a ddangosir â llinellau ar Fap 1 wedi ei throsglwyddo i ward Dwyrain Bistre;
- (b) mae'r rhan o ward Mynydd a ddangosir â llinellau ar Fap 2 wedi ei throsglwyddo i ward Pentrobin.

Tref Bwcle: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

5. Yn nhref Bwcle—

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Mynydd yw 3;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Pentrobin yw 7.

Tref y Fflint: newidiadau i wardiau cymunedol

6. Yn nhref y Fflint—

- (a) mae'r rhan o ward Oakenholt a ddangosir â llinellau ar Fap 3 wedi ei throsglwyddo i ward y Castell;
- (b) mae'r rhan o ward Oakenholt a ddangosir â llinellau ar Fap 4 wedi ei throsglwyddo i ward Trelawny.

(2) The County of Flintshire is divided into 45 electoral wards each bearing the English language name listed in column 1 and the Welsh language name listed in column 2 of the Table in the Schedule to this Order.

(3) Each electoral ward comprises the areas specified in relation to that electoral ward in column 3 of the Table in the Schedule to this Order.

(4) The number of members of the council to be elected for each electoral ward is the number specified in column 4 of the Table in the Schedule to this Order.

(5) The provisions in this Order take precedence over any conflicting provision in any previous statutory instrument made under section 58(2) of the Local Government Act 1972(1).

The town of Buckley: changes to community wards

4. In the town of Buckley—

- (a) the part of the Pentrobin ward shown hatched on Map 1 is transferred to the Bistre East ward;
- (b) the part of the Mountain ward shown hatched on Map 2 is transferred to the Pentrobin ward.

The town of Buckley: consequential changes to electoral arrangements

5. In the town of Buckley—

- (a) the number of members to be elected for the Mountain ward is 3;
- (b) the number of members to be elected for the Pentrobin ward is 7.

The town of Flint: changes to community wards

6. In the town of Flint—

- (a) the part of the Oakenholt ward shown hatched on Map 3 is transferred to the Castle ward;
- (b) the part of the Oakenholt ward shown hatched on Map 4 is transferred to the Trelawny ward.

(1) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

(1) 1972 c. 70; section 58 of the 1972 Act was repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the 2013 Act, subject to savings provisions specified in section 74 of the 2013 Act.

Tref y Fflint: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

7. Yn nhref y Fflint—

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Oakenholt yw 3;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Trelawny yw 4.

Tref Cei Connah: newidiadau i wardiau cymunedol

8. Yn nhref Cei Connah—

- (a) mae'r rhan o ward De Cei Connah a ddangosir â llinellau ar Fap 5 wedi ei throsglwyddo i ward Canol Cei Connah;
- (b) mae'r rhan o ward Golftyn a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 5 wedi ei throsglwyddo i ward Canol Cei Connah.

Tref Cei Connah: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

9. Yn nhref Cei Connah—

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Canol Cei Connah yw 5;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward De Cei Connah yw 6.

Cymuned yr Wyddgrug: newidiadau i wardiau cymunedol

10. Yng nghymuned yr Wyddgrug—

- (a) mae'r rhan o ward Gorllewin yr Wyddgrug a ddangosir â llinellau ar Fap 6 wedi ei throsglwyddo i ward Dwyrain yr Wyddgrug;
- (b) mae'r rhan o ward Broncoed a ddangosir â llinellau ar Fap 7 wedi ei throsglwyddo i ward y De;
- (c) mae'r rhan o ward De'r Wyddgrug a ddangosir â llinellau ar Fap 8 wedi ei throsglwyddo i ward Gorllewin yr Wyddgrug.

Cymuned Penarlâg: newidiadau i wardiau cymunedol a diddymu ward gymunedol Penarlâg

11. Mae ward gymunedol Penarlâg, fel y mae'n bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi ei diddymu ac—

- (a) mae'r rhan o'r ward honno a ddangosir â llinellau ar Fap 9 wedi ei throsglwyddo i ward Mancot;
- (b) mae'r rhan o'r ward honno a ddangosir â llinellau ar Fap 10 wedi ei throsglwyddo i ward Aston.

The town of Flint: consequential changes to electoral arrangements

7. In the town of Flint—

- (a) the number of members to be elected for the Oakenholt ward is 3;
- (b) the number of members to be elected for the Trelawny ward is 4.

The town of Connah's Quay: changes to community wards

8. In the town of Connah's Quay—

- (a) the part of the South ward shown hatched on Map 5 is transferred to the Central ward;
- (b) the part of the Golftyn ward shown cross-hatched on Map 5 is transferred to the Central ward.

The town of Connah's Quay: consequential changes to electoral arrangements

9. In the town of Connah's Quay—

- (a) the number of members to be elected for the Central ward is 5;
- (b) the number of members to be elected for the South ward is 6.

The community of Mold: changes to community wards

10. In the community of Mold—

- (a) the part of the West ward shown hatched on Map 6 is transferred to the East ward;
- (b) the part of the Broncoed ward shown hatched on Map 7 is transferred to the South ward;
- (c) the part of the South ward shown hatched on Map 8 is transferred to the West ward.

The community of Hawarden: changes to community wards and abolition of the community ward of Hawarden

11. The community ward of Hawarden, as it exists immediately before the ordinary day of election of councillors in 2022, is abolished and—

- (a) the part of that ward shown hatched on Map 9 is transferred to the Mancot ward;
- (b) the part of that ward shown hatched on Map 10 is transferred to the Aston ward.

Cymuned Penarlâg: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

12. Yng nghymuned Penarlâg—

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Aston yw 7;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Mancot yw 7.

The community of Hawarden: consequential changes to electoral arrangements

12. In the community of Hawarden—

- (a) the number of members to be elected for the Aston ward is 7;
- (b) the number of members to be elected for the Mancot ward is 7.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
2 Tachwedd 2021

Minister for Finance and Local Government, one of
the Welsh Ministers
2 November 2021

ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER
AELODAU'R CYNGOR

Tabl

<i>Colofn (1)</i>	<i>Colofn (2)</i>	<i>Colofn (3)</i>	<i>Colofn (4)</i>
<i>Enw Saesneg y ward etholiadol</i>	<i>Enw Cymraeg y ward etholiadol</i>	<i>Ardal y ward etholiadol</i>	<i>Nifer aelodau'r cyngor</i>
Argoed and New Brighton	Argoed a New Brighton	Cymuned Argoed	2
Bagillt	Bagillt	Tref Bagillt	2
Broughton North East	Gogledd-ddwyrain Brychdyn	Ward y Gogledd-ddwyrain o gymuned Brychdyn a Bretton	1
Broughton South	De Brychdyn	Ward y De o gymuned Brychdyn a Bretton	2
Brynford and Halkyn	Brynffordd a Helygain	Cymunedau Brynffordd a Helygain	2
Buckley: Bistre East	Bwcle: Dwyrain Bistre	Ward Dwyrain Bistre o dref Bwcle	2
Buckley: Bistre West	Bwcle: Gorllewin Bistre	Ward Gorllewin Bistre o dref Bwcle	2
Buckley: Mountain	Bwcle: Mynydd	Ward Bwcle: Mynydd o dref Bwcle	1
Buckley: Pentrobin	Bwcle: Pentrobin	Ward Pentrobin o dref Bwcle	2
Caergwrle	Caergwrle	Ward Caergwrle o gymuned yr Hôb	1
Caerwys	Caerwys	Cymuned Caerwys a chymuned Ysceifiog	1
Cilcain	Cilcain	Cymunedau Cilcain a Nannerch	1
Connah's Quay Central	Canol Cei Connah	Ward Canol Cei Connah o dref Cei Connah	2
Connah's Quay: Golftyn	Cei Connah: Golftyn	Ward Golftyn o dref Cei Connah	2
Connah's Quay South	De Cei Connah	Ward De Cei Connah o dref Cei Connah	2
Connah's Quay: Wepre	Cei Connah: Gwepre	Ward Gwepre o dref Cei Connah	1
Flint: Castle	Y Fflint: Y Castell	Ward y Castell o dref y Fflint	1
Flint: Coleshill and Trelawny	Y Fflint: Cynswllt a Threlawny	Wardiau Cynswllt a Threlawny o dref y Fflint	3
Flint: Oakenholt	Y Fflint: Oakenholt	Ward Oakenholt o dref y Fflint	1

Greenfield	Maes-glas	Ward Maes-glas o dref Treffynnon	1
Gwernaffield and Gwernymynydd	Y Waun a Gwernymynydd	Cymunedau'r Waun a Phant-y-mwyn, Gwernymynydd a Nercwys	2
Hawarden: Aston	Penarlâg: Aston	Ward Aston o gymuned Penarlâg	2
Hawarden: Ewloe	Penarlâg: Ewloe	Ward Ewloe o gymuned Penarlâg	2
Hawarden: Mancot	Penarlâg: Mancot	Ward Mancot o gymuned Penarlâg	2
Higher Kinnerton	Kinnerton Uchaf	Cymuned Kinnerton Uchaf	1
Holywell Central	Canol Treffynnon	Ward Canol Treffynnon o dref Treffynnon	1
Holywell East	Dwyrain Treffynnon	Ward Dwyrain Treffynnon o dref Treffynnon	1
Holywell West	Gorllewin Treffynnon	Ward Gorllewin Treffynnon o dref Treffynnon	1
Hope	Yr Hôb	Ward yr Hôb o gymuned yr Hôb	1
Leeswood	Coed-llai	Cymuned Coed-llai	1
Llanasa and Trelawnyd	Llanasa a Threlawnyd	Cymunedau Llanasa, a Gwaunysgor a Threlawnyd	2
Llanfynydd	Llanfynydd	Cymuned Llanfynydd	1
Mold: Broncoed	Yr Wyddgrug: Broncoed	Ward Broncoed o gymuned yr Wyddgrug	1
Mold East	Dwyrain yr Wyddgrug	Ward Dwyrain yr Wyddgrug o gymuned yr Wyddgrug	1
Mold South	De'r Wyddgrug	Ward De'r Wyddgrug o gymuned yr Wyddgrug	1
Mold West	Gorllewin yr Wyddgrug	Ward Gorllewin yr Wyddgrug o gymuned yr Wyddgrug	1
Mostyn	Mostyn	Cymuned Mostyn	1
Northop	Llaneurgain	Cymunedau Llaneurgain a Northop Hall	2
Pen-y-ffordd	Pen-y-ffordd	Cymuned Pen-y-ffordd	2
Saltney Ferry	Saltney Ferry	Tref Saltney	2
Queensferry and Sealand	Queensferry a Sealand	Cymunedau Queensferry a Sealand	2
Shotton East and Shotton Higher	Dwyrain Shotton a Shotton Uchaf	Ward Dwyrain Shotton a ward Shotton Uchaf o gymuned Shotton	2
Shotton West	Gorllewin Shotton	Ward Gorllewin Shotton o gymuned	1

		Shotton	
Treuddyn	Treuddyn	Cymuned Treuddyn	1
Whitford	Chwitffordd	Cymuned Chwitffordd	1

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE

Article 3

NAMES AND AREAS OF ELECTORAL WARDS AND NUMBER OF MEMBERS OF THE COUNCIL

Table

<i>Column (1)</i>	<i>Column (2)</i>	<i>Column (3)</i>	<i>Column (4)</i>
<i>English language name of electoral ward</i>	<i>Welsh language name of electoral ward</i>	<i>Area of electoral ward</i>	<i>Number of members of the council</i>
Argoed and New Brighton	Argoed a New Brighton	The community of Argoed	2
Bagillt	Bagillt	The town of Bagillt	2
Broughton North East	Gogledd-ddwyrain Brychdyn	The North East ward of the community of Broughton and Bretton	1
Broughton South	De Brychdyn	The South ward of the community of Broughton and Bretton	2
Brynford and Halkyn	Brynffordd a Helygain	The communities of Brynford and Halkyn	2
Buckley: Bistre East	Bwcle: Dwyrain Bistre	The Bistre East ward of the town of Buckley	2
Buckley: Bistre West	Bwcle: Gorllewin Bistre	The Bistre West ward of the town of Buckley	2
Buckley: Mountain	Bwcle: Mynydd	The Buckley Mountain ward of the town of Buckley	1
Buckley: Pentrobin	Bwcle: Pentrobin	The Pentrobin ward of the town of Buckley	2
Caergwrle	Caergwrle	The Caergwrle ward of the community of Hope	1
Caerwys	Caerwys	The community of Caerwys and the community of Ysceifiog	1
Cilcain	Cilcain	The communities of Cilcain and Nannerch	1
Connah's Quay Central	Canol Cei Connah	The Central ward of the town of Connah's Quay	2
Connah's Quay: Golftyn	Cei Connah: Golftyn	The Golftyn ward of the town of Connah's Quay	2
Connah's Quay South	De Cei Connah	The South ward of the town of Connah's Quay	2
Connah's Quay: Wepre	Cei Connah: Gwepre	The Wepre ward of the town of Connah's Quay	1
Flint: Castle	Y Fflint: Y Castell	The Castle ward of the town of Flint	1
Flint: Coleshill and Trelawny	Y Fflint: Cynswllt a Threlawny	The Coleshill and Trelawny wards of the	3

		town of Flint	
Flint: Oakenholt	Y Fflint: Oakenholt	The Oakenholt ward of the town of Flint	1
Greenfield	Maes-glas	The Greenfield ward of the town of Holywell	1
Gwernaffield and Gwernymynydd	Y Waun a Gwernymynydd	The communities of Gwernaffield and Pantymwyn, Gwernymynydd and Nercwys	2
Hawarden: Aston	Penarlâg: Aston	The Aston ward of the community of Hawarden	2
Hawarden: Ewloe	Penarlâg: Ewloe	The Ewloe ward of the community of Hawarden	2
Hawarden: Mancot	Penarlâg: Mancot	The Mancot ward of the community of Hawarden	2
Higher Kinnerton	Kinnerton Uchaf	The community of Higher Kinnerton	1
Holywell Central	Canol Treffynnon	The Central ward of the town of Holywell	1
Holywell East	Dwyrain Treffynnon	The East ward of the town of Holywell	1
Holywell West	Gorllewin Treffynnon	The West ward of the town of Holywell	1
Hope	Yr Hôb	The Hope ward of the community of Hope	1
Leeswood	Coed-llai	The community of Leeswood	1
Llanasa and Trelawnyd	Llanasa a Threlawnyd	The communities of Llanasa, and Gwaenysgor and Trelawnyd	2
Llanfynydd	Llanfynydd	The community of Llanfynydd	1
Mold: Broncoed	Yr Wyddgrug: Broncoed	The Broncoed ward of the community of Mold	1
Mold East	Dwyrain yr Wyddgrug	The East ward of the community of Mold	1
Mold South	De'r Wyddgrug	The South ward of the community of Mold	1
Mold West	Gorllewin yr Wyddgrug	The West ward of the community of Mold	1
Mostyn	Mostyn	The community of Mostyn	1
Northop	Llaneurgain	The communities of Northop and Northop Hall	2
Pen-y-ffordd	Pen-y-ffordd	The community of Penyffordd	2
Saltney Ferry	Saltney Ferry	The town of Saltney	2
Queensferry and	Queensferry a Sealand	The communities of	2

Sealand		Queensferry and Sealand	
Shotton East and Shotton Higher	Dwyrain Shotton a Shotton Uchaf	The East and Higher wards of the community of Shotton	2
Shotton West	Gorllewin Shotton	The West ward of the community of Shotton	1
Treuddyn	Treuddyn	The community of Treuddyn	1
Whitford	Chwitffordd	The community of Whitford	1

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1228>

ISBN 978-0-348-39156-5



9 780348 391565